**CYNGOR CYMUNED LLANWNDA**

**COFNODION IS-BWYLLGOR STAFFIO**

**7pm, 09.04.25 – Canolfan Cae'r Gors**

| ENW | Cyf. | SWYDDOGAETH | PRESENNOL/ABSENNOL/ YMDDIHEURO |
|---|---|---|---|
| Nia Gruffydd | NG | Cadeirydd y Pwyllgor | Presennol |
| Arwyn Roberts | AR | Cynghorydd Ward Tryfan | Presennol |
| Dyfan Thomas | DT | Aelod o'r Pwyllgor | Presennol |
| Huw Rowlands | HR | Cynghorydd Ward Llanwnda | Presennol |
| Jason Hunt | JH | Aelod o'r Pwyllgor | Presennol |
| Michelle Williams | MS | Aelod o'r Pwyllgor | Presennol |
| Bethan Williams | BCW | Clerc (cofnodi) | Presennol |

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Diolchwyd i bawb am fynychu'r pwyllgor hwn, fydd yn trafod dogfennau sy'n ymwneud â chynlluniau i hysybsebu am glerc newydd i'r cyngor. | |
| 2. | Nodwyd fod bwriad i DT a BCW gyfarfod er mwyn trosglwyddo gliniadur y cyngor ynghyd a'r holl ffeiliau drosodd i BCW, fydd yn gweithredu fel clerc dros dro. | |
| 3. | Hysbysebu Swydd Clerc<br>Rhoddwyd cyfle i bawb ddarllen a rhoi unrhyw sylwadau ar eiriad yr hysbyseb a'r disgrifiad swydd. Cafwyd trafodaeth am ambell newid i'r geiriad.<br><br>Bydd angen penderfyniad ar ddyddiad cau, ynghyd a ble fydd y swydd yn cael ei hysbysebu. Yn ogystal a hysbysebu yn Lleu, gobeithir y bydd modd hysbysebu'r swydd ar wefan Cyngor Gwynedd, fel swydd allanol, ynghyd a'r cyfryngau cymdeithasol, a drwy Un Llais Cymru. | |
| 4. | **PWYNT GWEITHREDU: Bydd NG yn mireinio'r dogfennau a'u rhannu gyda gweddill y pwyllgor er mwyn cymeradwyaeth derfynol, cyn trefnu fod y clerc yn hysbysebu'r swydd.** | **NG/BCW** |
| 5. | **PWYNT GWEITHREDU:**<br>**Cytunwyd ar y canlynol:**<br>**Dyddiad cau: 04.07.25**<br>**Llunio Rhestr Fer: 09.07.25**<br>**Cyfweliadau: 17.07.25**<br>**Ceisiadau i'w danfon dros ebost i gyfeiriad y Clerc, fydd yn eu dosbarthu i aelodau'r pwyllgor yma.** | **Pawb** |
| 6. | **Penodi Cadeirydd is-bwyllgor staffio**<br>Cynigwyd enw Nia Gruffydd fel Cadeirydd parhaol i'r pwyllgor hwn, ac yn ei thro yn reolwr llinell i'r clerc. | |
| 7. | **PWYNT GWEITHREDU: Cynigwyd Nia Gruffydd fel Cadeirydd y pwyllgor, cytunwyd yn unfrydol.** | **Pawb** |

DRAFT